# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 9

CYDLAFURIO A CHYFUNO

## PENNOD 2

CYFUNO

### 165 Pŵer i gyfarwyddo refferendwm sy'n cynnwys maer etholedig

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth i'w galluogi neu mewn cysylltiad â'u galluogi, o dan unrhyw amgylchiadau a ragnodir yn y rheoliadau, i gyfarwyddo awdurdod cysgodol i gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r awdurdod lleol newydd weithredu gweithrediaeth maer a chabinet.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau o dan yr adran hon yn cynnwys darpariaeth (ond nid yw wedi ei chyfyngu i ddarpariaeth)—

- (a) ynghylch y dyddiad, neu'r amser erbyn pryd, y mae'n rhaid cynnal refferendwm;
- (b) o ran y camau gweithredu y caniateir eu cymryd, neu na chaniateir eu cymryd, neu y mae'n rhaid eu cymryd gan awdurdod cysgodol o flaen refferendwm neu mewn cysylltiad ag ef;
- (c) o ran y camau gweithredu y caniateir eu cymryd, neu na chaniateir eu cymryd, neu y mae'n rhaid eu cymryd gan awdurdod cysgodol ar ôl refferendwm;
- (d) i alluogi Gweinidogion Cymru neu mewn cysylltiad â'u galluogi, os bydd unrhyw fethiant gan yr awdurdod cysgodol i gymryd unrhyw gamau gweithredu a ganiateir neu sy'n ofynnol yn rhinwedd y rheoliadau, i gymryd y camau gweithredu hynny.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-adran (2) yn cynnwys darpariaeth sy'n cymhwyso neu'n atgynhyrchu (gydag addasiadau neu hebddynt)

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

unrhyw ddarpariaethau yn adran 25, 27, 28, 29 neu 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu Ran 4 o'r Mesur hwn.